**Adran yr Economi a'r Seilwaith**
**Department for Economy and Infrastructure**

Ein cyf/Our ref ATISN 10434

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

23 Mehefin 2016

Annwyl ,

**Cais am Wybodaeth – ATISN 10434**

Ysgrifennais atoch ar 24 Mai ynghylch eich cais am wybodaeth. Yn eich cais roeddech yn gofyn am gopi o'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood Studios ar gyfer sefydlu Pinewood Studios yng Nghaerdydd ac ar gyfer y gronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau.

Gallaf gadarnhau bod gennym wybodaeth sy'n dod o dan eich cais. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon yn esempt o'r gofynion datgelu o dan Adran 43(2), Buddiannau Masnachol, o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fe welwch fy rhesymau dros esemptio'r papur yn Atodiad A.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
FreedomOfInformationOfficer@wales.gsi.gov.uk.

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Information Commissioner’s Office,
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir,

Tim Rhyddid Gwybodaeth -
Yr Economi a'r Seilwaith
Llywodraeth Cymru
Trefforest - Canolfan QED
Y Brif Rodfa
Ystad Ddiwydiannol
Trefforest
Pontypridd
CF37 5YR

ES&T-FOI@wales.gsi.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

**ATISN 10434 – Cais am Esemptiad**

**<u>Adran 43 (2) - Buddiannau Masnachol</u>**

Cafodd penderfyniadau ynghylch peidio â datgelu eu gwneud gan roi sylw dyledus i'r esemptiadau a nodir o dan Adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Adran hon yn nodi bod gwybodaeth yn wybodaeth sydd wedi'i hesemptio os byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn niweidio, neu'n debygol o niweidio, buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n meddu arni).

Mae Adran 43 yn esemptiad cymwys (yn destun prawf lles y cyhoedd). I'r perwyl hwn, mae'n rhaid i mi ddangos bod y lles i'r cyhoedd sydd ynghlwm wrth beidio â datgelu'r wybodaeth yn fwy sylweddol na'r lles i'r cyhoedd a fyddai'n deillio o'i rhyddhau. Rwyf felly wedi ystyried effeithiau datgelu'r wybodaeth i'r byd cyfan gan y byddai'r wybodaeth ar gael i bawb, ac nid dim ond y person sy'n gofyn amdani. O'r herwydd, wrth ystyried eich cais gwnes bwyso a mesur effeithiau ehangach datgelu'r wybodaeth yn hytrach nag unrhyw les personol a fyddai'n deillio o dderbyn yr wybodaeth.

**Prawf Lles y Cyhoedd**

Rwy'n cydnabod bod y cyhoedd yn awyddus i weld y Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw ac y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn helpu'r cyhoedd i ddeall y penderfyniadau hyn yn well. Cydnabyddir yn ogystal fod y cyhoedd yn awyddus i weld sut y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio, neu sut y cafodd ei ddefnyddio, er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth yn sicrhau'r gwerth gorau posibl o bwrs y wlad.

Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sy'n rhan o'r cais yn gysylltiedig â chytundeb cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood Studios. Mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am gyllidebau sydd ynghlwm wrth y cytundeb, sy'n wybodaeth sensitif o ran busnes. Mae'r holl wybodaeth dan sylw yn wybodaeth gyfredol a masnachol sensitif ac os byddai'n cael ei rhyddhau gallai niweidio buddiannau masnachol Pinewood Studios. Byddai unrhyw ddatgeliad yn amharu ar eu gallu i sicrhau cytundebau gyda chynhyrchwyr a chyllidwyr eraill ac i gwblhau cytundebau gyda chronfeydd eraill o safbwynt telerau marchnad. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am brosiectau a phrosesau a hefyd amodau'r cytundeb ar gyfer y ddau barti. Os byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd rwy'n fodlon y byddai'n debygol o gael effaith negyddol ar y cwmni ac felly byddai'n debygol o niweidio ei fuddiannau masnachol. Y rheswm am hyn yw y byddai'r wybodaeth yn debygol o fod o ddiddordeb i'r cwmnïau sy'n cystadlu yn ei erbyn am waith tebyg mewn rhanbarthau eraill.

Er y byddai'r wybodaeth hon o ddiddordeb i'r cwmnïau sy'n cystadlu yn ei erbyn, nid wyf o'r farn y byddai o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol. Nid wyf o'r farn y byddai hwyluso'r math hwn o fantais gystadleuol annheg er lles y cyhoedd yn gyffredinol. Er fy mod yn derbyn y bydd gan y cyhoedd bob amser ddiddordeb yng ngwaith Llywodraeth Cymru, gan ei bod yn gorff cyhoeddus, ac y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn tystio i'n parodrwydd i fod yn agored ac yn dryloyw o ran y ffordd yr ydym yn gweithio, nid wyf o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon o les mawr i'r cyhoedd.

Gwn fod gwybodaeth gan amlaf yn troi'n wybodaeth lai sensitif ymhen amser felly gallai oedran gwybodaeth, neu amseru'r cais, fod yn berthnasol o safbwynt pennu a ddylid esemptio'r wybodaeth neu bennu a oes lles i'r cyhoedd. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, mae'r wybodaeth dan sylw yn wybodaeth gwbl gyfredol.

I gloi felly, ar ôl ystyried lles y cyhoedd rwyf o blaid peidio â datgelu'r wybodaeth hon.